CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Rhagfyr 8, 2015 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau: Geraint Rowlands.

2. Datgan diddordeb:

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 10, 2015

4. Materion yn codi o'r cofnodion Tachwedd 10, 2015

5. Materion Ariannol

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (12/11/2015) oddi wrth Un Llais Cymru a llythyr (19/11/2015) oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn rhoi gwybod am gyfle i ddweud eich barn am blismona yn Clwb Golff Dolgellau ar 14/01/2016 am 6.00yh. Bydd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Mr Winston Roddick yn bresennol.

b. Llythyr (Tachwedd 16, 2015) oddi wrth Cefnogaeth Gorfforaethol, Cyngor Gwynedd. Mae'n ymwneud a Her Gwynedd ac yn cynnwys rhestr o opsiynau mae Cyngor Gwynedd yn eu hystyried a all fod o ddiddordeb i Gynghorau Cymuned / Tref i gwblhau holiadur Her Gwynedd. Mae angen gwblhau'r holiadur cyn 30 Tachwedd 2015. Y rhestr sy'n berthnasol i ni yw:

Amg13 – Llwybrau Cyhoeddus
Amg17 – Cynnal Meinciau ac arwyddion enwau strydoedd.
Econ1 – Canolfannau Croeso'r Cyngor.
Econ6 – Pont Abermaw.
Amrwyio19 – Toiledau Cyhoeddus.

Os mae gan y Cyngor Cymuned diddordeb mewn cymryd mwy o gyfrifoldeb am wasanaethau Cyngor Gwynedd mae angen rhoi gwybod i Reolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol.

c. Llythyr (Tachwedd 2015) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod nid oes gan y Cyngor cyfeiriad e-bost neu wefan. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 mae'n ofynnol i ni roi gwybodaeth ar wefan a bod e-bost.

Mae'r rhain wedi cael eu gwneud.

d. Llythyr (Tachwedd 2015) oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru. Yn Ionawr 2016 maent am ail lansio Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth (Neighbourhood Watch Scheme) sy'n golygu bydd angen recriwtio a chofrestru aelodau newydd. Mae hyn i gynorthwyo'r heddlu.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

a. Cofiwch am y cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Lun, Ionawr11, 2016 am 7.00yh. i drafod y mater.

O'r cyfarfod diddwythaf penderfynwyd i'r cynghorau paratoi rhestr o asedau sydd ganddynt, y gwaith allanol sydd yn cael ei wneud, a gweithgareddau cymunedol sydd yn cael eu cynnal. Yn y dyfodol roedd yn syniad o gael Anwen Davies, Rheolydd Mentrau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd yn bresennol.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc